

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom Llew Williams
Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Medi 2021 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6565
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

Cofrestru a rhag-gyfarfod preifat.

(09.00–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Sesiwn i graffu ar waith Gweinidogion: Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

(09.30–10.30)

(Tudalennau 1 – 11)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Owain Lloyd, Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr – y Gymraeg

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Papur tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.

Egwyl

(10.30–10.45)



3 Craffu ar waith Comisiynydd y Gymraeg

(10.45–11.05)

(Tudalennau 12 – 23)

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Dyfan Sion, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Gwenith Price, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

4 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2020–21 a'r Adroddiad Sicrwydd 2020–21.

(11.05–12.05)

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Dyfan Sion, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Gwenith Price, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

[Adroddiad Blynyddol 2020–21](#)

5 Papurau i'w nodi

(12.05–12.10)

- 5.1 Ymateb gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar yr argyfwng ffoaduriaid Affganistan.

(Tudalennau 24 – 27)

- 5.2 Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am berchnogaeth Channel 4.

(Tudalennau 28 – 30)

- 5.3 Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

(Tudalennau 31 – 32)

- 5.4 Llythyr at Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiwn graffu ar waith y Gweinidog gyda Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
(Tudalennau 33 – 37)
- 5.5 Llythyr at Lywodraeth Cymru ar effaith gwerthu Bad Wolf**
(Tudalennau 38 – 39)
- 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.**
(12.10)
- 7 Ôl-drafodaeth breifat**
(12.10–12.20)
- 8 Blaenraglen waith**
(12.20–12.30) (Tudalennau 40 – 47)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, CYFATHREBU, Y GYMRAEG, CHWARAEON A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor cyn imi fynychu cyfarfod 29 Medi 2021. Roedd y gwahoddiad yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ar y materion canlynol:

- i. *Gwario a chymorth i sefydliadau adfer o effeithiau pandemig COVID-19;*
- ii. *Asesiad o sut mae'r pandemig wedi effeithio ar y targedau Cymraeg 2050, a camau a gymerwyd i leihau ei effaith;*
- iii. *Eich blaenoriaethau ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y Chweched Senedd;*
- iv. *Eich amserlen ar gyfer cyflwyno rhagor o Reoliadau Safonau'r Gymraeg ac unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig ychwanegol.*

Mae'r ymateb isod yn canolbwyntio ar bob un o'r rhain yn eu tro.

Cefndir

Fis Gorffennaf eleni, fe wnaethom ni gyhoeddi [Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26](#) yn amlinellu'r gwaith i barhau i wireddu *Cymraeg 2050* yn ystod y Chweched Senedd. Drwy gyhoeddi'r Rhaglen yn gynnar yn nhymor y Llywodraeth, rydym yn cynnal y momentwm sydd wedi tyfu ers lansio *Cymraeg 2050* yn 2017, ac yn datgan yn glir beth yw'n bwriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Gan fod *Cymraeg 2050* yn strategaeth sy'n ymestyn dros gyfnod hir, roeddem yn gwybod y gallai newidiadau mewn cymdeithas olygu bod yn rhaid addasu ein blaenoriaethau dros amser. Wrth gwrs, bu'n rhaid i ni wneud hynny'n gynt na'r disgwyl yn sgil y pandemig, ac mae'r Rhaglen Waith newydd yn adlewyrchu hyn wrth i ni barhau ar y daith i ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg a thuag at filiwn o siaradwyr.

i. Gwario a chymorth i sefydliadau adfer o effeithiau pandemig COVID-19

Er mwyn rhoi *Cymraeg 2050* ar waith, rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth a thu hwnt. Mae gan y sefydliadau trydydd sector a gaiff eu hariannu drwy'r grant hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg¹ rôl allweddol i'w chwarae, ynghyd â'r Mudiad Meithrin, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill.

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi cynnal cysylltiad agos gyda'n partneriaid drwy gyfathrebu'n agored ac yn glir â nhw, drwy gynnig cyngor a chefnogaeth, a thrwy gydweithio a chydgyngllunio. Byddwn yn parhau i gynnal y cysylltiadau clos hyn yn y dyfodol.

Mae'n deg dweud bod COVID-19 wedi cyflwyno nifer o heriau i'n partneriaid wrth weithredu *Cymraeg 2050*, ond mae'r ffordd y maen nhw wedi ymateb yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf – er mwyn nid yn unig goroesi ond, yn aml, arallgyfeirio'n llwyddiannus hefyd – wedi creu argraff fawr arnaf i. Rwy'n ffyddiog y daw llawer o'r gwaith newydd ac arloesol hwn yn rhan o'n ffordd newydd o weithio yn y dyfodol.

Ers dechrau'r pandemig, er gwaethaf y cyni ariannol, rydym wedi llwyddo i ddyrannu arian ychwanegol i gefnogi ein partneriaid pan oedd hynny'n bosibl e.e. £1.3m yn 2020-21 i gefnogi'r Urdd yn sgil colli incwm a dileu swyddi.²

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi llwyddo i neilltuo £2.4m yn ychwanegol i faes y Gymraeg o'r Gronfa Ymateb i COVID-19, fel a ganlyn:

- **Darpariaeth trochi hwyr**

¹ Dyma'r sefydliadau: yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, y mentrau iaith, Merched y Wawr, y Ffermwyr Ifanc, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, y papurau bro a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

² Cyflwynodd fy rhagflaenydd bapur tystiolaeth i'r pwyllgor blaenorol fis Ionawr eleni yn manylu ar y cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu ers dyfodiad COVID-19.

Mae Rhaglen Waith newydd *Cymraeg 2050* yn cynnwys targedau hollbwysig i blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys addysgu 26% o ddysgwyr blwyddyn 1 drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2026. Y ffigur diweddaraf (ar gyfer 2020/21) yw 23%.

Mae darpariaeth trochi hwyr yn rhan hanfodol o'r jig-so, ac mae'r galw am y ddarpariaeth hon, neu'r angen i ymgorffori methodolegau addysg drochi o fewn y brif ffrwd, wedi'i ddwysáu yn sgil COVID-19. Mae'r dystiolaeth anecdotaidd ar lefel leol fel pe bai'n awgrymu bod mwy o deuluoedd yn symud dros y ffin i Gymru, gan arwain at gynnydd cyflym yn y galw am ddarpariaeth trochi hwyr.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae cyllid ychwanegol o £2.2m wedi'i ddyrannu o'r Gronfa Ymateb i COVID-19 i gefnogi darpariaeth trochi hwyr ar draws pob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol ddiogelu darpariaeth trochi hwyr sydd eisoes yn bodoli (unedau iaith mewn ysgolion neu ganolfannau penodol) a'u hehangu mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Bydd y cyllid hefyd yn caniatáu i ganolfannau trochi gefnogi gwaith i aildrochi pob dysgwr yn sgiliau'r Gymraeg yn sydyn, yn dilyn cyfnod estynedig heb fawr o gyswllt â'r Gymraeg, os o gwbl, yn sgil nifer o gyfnodau clo.

- **Yr Eisteddfod Genedlaethol**

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae cyllid ychwanegol o £0.2m wedi'i ddyrannu o'r Gronfa Ymateb i COVID-19 i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Eisteddfod yn ddigwyddiad diwylliannol Cymraeg eiconig sydd nid dim ond yn dathlu ein diwylliant Cymreig unigryw, ond sydd hefyd yn cofleidio'r amrywiaeth sy'n bodoli yng Nghymru. Oherwydd y pandemig, gohiriwyd Eisteddfodau 2020 a 2021. O ganlyniad, mae'r Eisteddfod wedi wynebu heriau ariannol – heb unrhyw gyfleoedd i greu incwm (ac wedi gorfod talu costau contractau i ganslo Eisteddfod 2020 a'r galw i dalu'r costau rhedeg craidd). Roedd hyn, yn ei dro, yn golygu bod yn rhaid i'r Eisteddfod ymgymryd â phroses ddiswyddo i leihau ei staff o 12 i 6.

Bydd y cyllid ychwanegol a gafwyd yn helpu'r Eisteddfod i ailadeiladu a sicrhau bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol i gynllunio Eisteddfodau Cenedlaethol 2022 a 2023. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi prosiect peilot cynhwysiant cymdeithasol a chymunedol: cynhelir Eisteddfodau Cenedlaethol 2022 a 2023 yng Ngheredigion ac ym Mhenrhyn Llŷn – ardaloedd sydd wedi profi lefelau cymharol uchel o fewnfudo a galw mawr am ail gartrefi.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn camu ymlaen gyda'n gilydd ar y llwybr tuag at y miliwn.

ii. [**Asesiad o sut mae'r pandemig wedi effeithio ar y targedau Cymraeg 2050, a camau a gymerwyd i leihau ei effaith**](#)

Nododd *Cymraeg 2050* y byddai angen addasu'n cynlluniau ar gyfer cyflawni'r strategaeth dros amser wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol. Mae'r pandemig wedi golygu y bu'n rhaid i nifer o'n hymyraethau ni a'n partneriaid newid neu ddod i ben, ac y bu'n rhaid creu hymyraethau newydd. Yn naturiol, mae ein hymateb i

COVID-19 a'i effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn ganolog i'n Rhaglen Waith newydd, ac mae prif elfennau strategaeth *Cymraeg 2050* yn glir ac yn parhau er gwaetha'r pandemig.

Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod eto beth fydd holl oblygiadau'r pandemig ar gyrraedd targedau *Cymraeg 2050*. Mae disgwyl hefyd i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gyhoeddi holl ganfyddiadau'r Cyfrifiad, gan gynnwys data am y Gymraeg, rhwng gwanwyn 2022 a gwanwyn 2023. Mewn ymateb i hyn oll, byddwn ni'n adolygu'r targedau a'r [taflwybr](#) cysylltiedig yn barhaus, ac yn addasu rhaglenni gwaith yn unol â hynny.

Fodd bynnag, er gwaethaf y pandemig, rydym wedi llwyddo i gyrraedd nifer o'r targedau a osodwyd yn rhaglen waith gyntaf *Cymraeg 2050* (ar gyfer 2021-21):

- Un o'n targedau allweddol yw ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. I gyflawni hyn, pennwyd targed i agor 40 o grwpiau newydd erbyn 2021. Dros y 3 blynedd diwethaf, rydym wedi ariannu Mudiad Meithrin i arwain y gwaith ehangu hwn drwy eu rhaglen *Sefydlu a Symud*. Er gwaethaf y pandemig, rydym wedi cyrraedd y targed hwn: hyd yma, agorwyd 43 o grwpiau newydd (Medi 2021). Mae 12 grŵp arall wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Gwelwyd hefyd gyfraddau trosglwyddo calonogol rhwng y cyfnod meithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg (o 86.4% yn 2015/16 i 88.1% yn 2019/20).
- Gwelwyd cynnydd o ychydig dan 1 pwynt canran (o 22.0% yn 2015/16 i 22.8% yn 2020/21) yn y plant Blwyddyn 2 (plant 7 oed fel arfer) a gafodd eu hasesu drwy'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Er nad ydym wedi cyrraedd y targed o 24% erbyn 2021, ceir arwyddion calonogol mewn carfanau iau, lle cafodd 23.8% o blant dosbarthiadau Derbyn (plant 5 oed fel arfer) eu haddysgu yn Gymraeg yn 2020/21³.
- Yn adran (i) y papur hwn, rydym yn sôn am gyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth drochi – bydd hyn yn cefnogi ein gwaith i gyrraedd y targed hwn. Bydd prosiectau cyfalaf Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain hefyd yn ganolog i'n hymdrechion. Mae'r cylch cyntaf o arian cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn ystod 2018 yn cefnogi 46 prosiect ar draws 20 awdurdod lleol, a fydd yn arwain at 2,818 o lefydd gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r pandemig wedi cael rhywfaint o effaith ar y gwaith hwn wrth i ddyddiadau cwblhau rhai prosiectau gael eu symud yn hwyrach yn ystod 2022. Ond, mae'r rhan fwyaf o'r 46 prosiect yn datblygu'n dda, gydag 8 prosiect eisoes wedi'u cwblhau (e.e. Canolfan Iaith Cwm Gwendraeth, Ysgol Gyfun Gymraeg Evan James, ac Ysgol y Wern) a dros £16.1m wedi'i hawlio hyd yma. Bydd ceisiadau am yr ail gyfran o fuddsoddiad cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno erbyn 22 Hydref 2021.
- Gofu i ni addasu'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn sgil COVID-19. Roedd Rheoliadau Cynlluniau

³ Noder na chasglwyd data asesiadau athrawon yn ystod 2020/21, felly mae'r data yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar gyfer 2020/21.

Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn gosod amserlen i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau deng mlynedd cyntaf i'w cymeradwyo erbyn mis Ionawr 2021, ac i'r cynlluniau fod yn weithredol o fis Medi 2021. Gwelwyd nad oedd yr amserlen hon yn ymarferol yn sgil y pandemig, felly symudwyd dyddiad cychwyn y cylch CSCA nesaf o 1 Medi 2021 i fis Medi 2022⁴ – bydd y cynlluniau CSCA presennol yn cael eu hystyngiadau hyd nes y bydd y cynlluniau newydd yn dod i rym bryd hynny. Fodd bynnag, mae gweithio o bell wedi cyflwyno cyfleoedd newydd i ni gefnogi awdurdodau lleol. Cynhaliwyd 10 sesiwn rithiol gennym (rhai yn Gymraeg, eraill yn Saesneg) gyda swyddogion awdurdodau lleol ac aelodau Fforymau Addysg Lleol, i'w cefnogi i baratoi eu CSCA. Mynychodd 170 o bobl y sesiynau byw, ac mae llawer mwy wedi gwrandao ar-lein wedi hynny. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol ac rydym felly wrthi'n trefnu sesiynau pellach ar gyfer tymor yr hydref.

Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi bod yn gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda'n partneriaid ar hyd a lled y wlad i ymateb i sefyllfa sy'n newid yn gyflym, gan geisio lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar *Cymraeg 2050* ac i geisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n dod i'n rhan. Mae hyn yn amrywio o gynnig cyllid ychwanegol i rai partneriaid grant i'w cefnogi wrth i ddigwyddiadau gael eu gohirio a ffrydiau cyllid ddiflannu dros nos, sicrhau bod Cysgliad ar gael yn rhad ac am ddim (mae mwy na 7,000 wedi ei lawrlwytho erbyn hyn), cynnal ymgyrch i gefnogi rhieni plant sy'n cael addysg Gymraeg, a chynnal awdit o ddefnydd iaith cymunedol.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddom ni ganlyniad yr awdit hwnnw ar ffurf Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR), o dan y teitl [Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg](#). Roedd yr adroddiad hwn yn dadansoddi gweithgarwch grwpiau cymunedol Cymraeg yn sgil COVID-19. Llywiwyd datblygiad yr adroddiad gan Is-grŵp o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom ni gyhoeddi'n [hymateb i'r adroddiad](#). Dyma rai o themâu cyffredinol yr ymateb:

- Yn ganolog i'n gweithredu, byddwn ni'n cydnabod ac yn annog cysyniad gofodau uniaith Gymraeg – creu gofodau y gallwn ni ddefnyddio'n Cymraeg yn ddi-rwystr ynddyn nhw.
- Bydd model grymuso cymunedol yn ganolog i'n gwaith – a'r gwaith rydyn ni'n ei ariannu.
- Byddwn ni'n estyn y tu hwnt i fudiadau rydym ni'n eu hariannu a'r tu hwnt i fudiadau Cymraeg er mwyn denu rhagor i weithredu o blaid ein hiaith. A byddwn ni'n disgwyl i'r cyrff rydym ni'n eu hariannu wneud yr un fath.

Byddwn yn sôn mwy am rai agweddau ar ein hymateb o dan y pennawd isod.

Cafodd canlyniadau cychwynnol Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 eu cyhoeddi ar 14 Medi, yn [Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2019-20](#). Defnyddir yr arolwg i fesur cynnydd yn erbyn ein targed o ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, sydd hefyd yn

⁴ Gwnaed hyn drwy Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

un o'n dangosyddion cenedlaethol am y Gymraeg. Nododd yr arolwg bod 10% o boblogaeth tair oed neu hŷn yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg. Mae hyn yr un ganran ag yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y daeth yr arolwg i ben yn fuan ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig, felly nid yw'n glir eto beth fydd effaith COVID-19 ar ddefnydd dyddiol o'r Gymraeg o safbwynt yr arolwg defnydd iaith.

iii. [Eich blaenoriaethau ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y Chweched Senedd](#)

A minnau'n Weinidog y Gymraeg, cefnogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'n hiaith – hyrwyddo'r *defnydd* o'r Gymraeg – yw holl bwrpas rhan fawr o'm swydd. Yn hynny o beth, mae'r papur hwn yn ei gyfanrwydd yn trafod cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Dyma fanylu isod ar rai agweddau perthnasol ar ein gwaith na thrafodwyd hyd yn hyn (nid yw'r rhestr yn holl gynhwysfawr):

- Ein bwriad yw cynnal adolygiad o'n Cynllun **Grantiau** i Hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn ein cynorthwyo i weld sut y gallwn ni gynyddu ymhellach ddefnydd o'r Gymraeg.
- Byddwn ni'n edrych ar ein gweithgarwch yn y **sector busnes** er mwyn gweld sut y gallai'r gwaith hwnnw esblygu, datblygu ac addasu er mwyn cyfrannu at gynyddu nifer y busnesau / cwmnïau cydweithredol a / neu cymunedol sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg.
- Byddwn ni'n parhau i weithredu ein [Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg](#), gan ganolbwyntio'n syth ar greu systemau a fydd yn defnyddio **technoleg** i hwyluso gwaith cyfieithwyr. Byddwn ni'n anelu at greu system 'parth benodol' ar gyfer cyfieithu meddygol yn y lle cyntaf.
- Hefyd ym myd technoleg, byddwn ni'n gweithio gyda **systemau caffael** er mwyn ei gwneud yn hawdd i ddatblygwyr (a chomisiynwyr) meddalwedd ddatblygu meddalwedd sy'n darparu'r profiad gorau i ddefnyddwyr ein hiaith. Ein bwriad wrth wneud hyn yw cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio technoleg yn Gymraeg, a fydd wrth gwrs yn cyfrannu at ein targed i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.
- Byddwn ni'n gweithredu ein [Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd](#) er mwyn cynorthwyo **rhieni** i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'u plant. Byddwn ni'n gweithredu yn y lle cyntaf i edrych ar waith mewn meysydd y tu hwnt i faes y Gymraeg sy'n defnyddio gwyddorau ymddygiadol i weithio gyda rhieni. Bydd hyn yn bwydo ein hymyraethau yn y dyfodol sy'n deillio o'r polisi.
- Byddwn ni'n defnyddio'r ymatebion i'r [ymgyngoriad diweddar](#) ar **seilwaith ieithyddol** y Gymraeg i ddatblygu polisi terfynol, a fydd yn gosod allan sut y byddwn yn gweithredu i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio adnoddau fel geiriaduron, cronfeydd termau a chorpora Cymraeg. Mae seilwaith ieithyddol effeithiol yn hanfodol er mwyn helpu pobl i gaffael a defnyddio'r iaith.

Mae'r materion isod hefyd wedi eu cynnwys yn ein [Rhaglen Lywodraethu](#) ar gyfer y Chwched Senedd, ac felly'n rhan bwysig o'n blaenoriaethau:

- Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg (drwy gyfrwng **Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg** – gweler adran (iv) y papur hwn).
- Mynd i'r afael â niferoedd uchel o ail gartrefi yn rhai o'n cymunedau. Rydym wrthi'n datblygu **Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg** i'w gyhoeddi yn yr hydref – byddwn yn ymgynghori ar ei gynnwys. Ein bwriad yw sicrhau cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu a'i gwneud yn bosibl i bobl ifanc aros neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny.
- Ehangu rôl y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** – rydym wedi dyrannu £0.810m yn ychwanegol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ariannol hon i gefnogi prosiectau strategol ar draws pob coleg addysg bellach, a fydd yn datblygu'r capasiti addysgu ym meysydd lechyd a Gofal Cymdeithasol; Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus – meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y [Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg](#).
- Ehangu ein darpariaeth Gymraeg yn y **blynyddoedd cynnar**.
- Darparu mynediad am ddim i **Eisteddfod yr Urdd 2022**.
- Cyflwyno prosiect peilot a fydd yn cymell siaradwyr Cymraeg ifanc i **ddychwelyd o brifysgolion** i helpu gydag addysgu Cymraeg mewn ysgolion.
- Cymryd camau i amddiffyn **enwau lleoedd** Cymraeg.

iv. [**Eich amserlen ar gyfer cyflwyno rhagor o Reoliadau Safonau'r Gymraeg ac unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig ychwanegol**](#)

Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn flaenoriaeth i ni – yn wir, mae dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn un o ddau brif amcan *Cymraeg 2050*. Er mwyn pennu cyfeiriad y rhaglen safonau i'r dyfodol, rydym am ddeall yn union sut mae'r safonau sydd eisoes wedi'u gosod yn helpu siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio mwy ar ein hiaith. Bydd y darlun a gawn o'r ddealltwriaeth honno'n ein helpu i benderfynu sut orau i ddefnyddio'r system safonau i gyfrannu at gynyddu'r defnydd o'n hiaith yn y dyfodol. Rydym wedi dechrau trafod hyn gyda Chomisiynydd y Gymraeg a bydd y trafodaethau hynny yn parhau.

Rydym wedi ymrwymo yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ystod y Tymor hwn. Pwrpas y Bil fydd cryfhau a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru er mwyn cwrdd â'n targedau yn *Cymraeg 2050*.

Rydym eisoes wedi cymryd camau pwysig yn y maes hwn. Rydym wedi cryfhau'r is-ddeddfwriaeth sy'n cefnogi cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg gan awdurdodau lleol drwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac wedi ymgynghori ar ganllawiau anstatudol ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rwy'n awyddus i archwilio beth arall allwn ni ei wneud yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch a theg.

Rydym hefyd wedi ymrwymo yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn Rhaglen Waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2021-26 i roi pwerau newydd i Trafnidiaeth Cymru i integreiddio rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yn well a'u rheoleiddio er mwyn iddynt fodloni Safonau'r Gymraeg.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH-/10435/21

Jenny Rathbone AS a Delyth Jewell AS
Cadeiryddion
Senedd Cymru

Government.Committee.Business@llyw.cymru

10 Medi 2021

Annwyl Jenny & Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Awst, ar ran y ddau bwyllgor Senedd, ynghylch yr argyfwng dyngarol yn Affganistan a'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru i'r ffoaduriaid.

Ar 26 Awst, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn nodi'r hyn yr oeddem yn ei wybod a beth oedd ein camau nesaf o ran cefnogi'r rhai a achubir o Affganistan. Gallwch ddarllen mwy yn y ddolen isod;

[Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb penodol Cymru i'r sefyllfa yn Affganistan \(26 Awst 2021\) | LLYW.CYMRU](#)

Rwyf hefyd yn bwriadu annerch y Senedd yr wythnos nesaf i roi diweddariad pellach ar ein gwaith hyd yma. Mae Cymru yn Genedl Noddfa a rhaid inni wneud popeth sy'n bosibl i sicrhau bod cyfieithwyr Affganistan, ffoaduriaid a'u teuluoedd yn cael croeso cynnes ac yn gallu integreiddio'n effeithiol yn ein cymunedau.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol Cymru ac eraill i sicrhau bod digon o lety a bod y cymorth integreiddio priodol yn cael ei roi ar waith. Bythefnos yn ôl, cyfarfu Prif Weinidog Cymru a minnau, a buom yn gwrandao ar randdeiliaid allweddol ledled Cymru, gan gynnwys cynrychiolwyr y gymuned Affgan, er mwyn ystyried sut y gallwn gydweithio i ddarparu'r cymorth gorau posibl i'r rhai sy'n ffoi o Affganistan. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros yr wythnosau nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 24
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Faint o ffoaduriaid Affganistan rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael noddfa yng Nghymru ac a oes amserlen ar gyfer eu hadsefydlu?

Mae'n bwysig nodi bod dau gynllun yn cael eu datblygu sydd â meini prawf cymhwysedd gwahanol. Mae Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid (ARAP) yn darparu llety a chymorth i'r rhai a weithiodd yn uniongyrchol ochr yn ochr â Lluoedd Arfog Prydain yn Affganistan. Yn annibynnol ar hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Cynllun i Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), ond nid yw union hyd a lled y cynllun hwn wedi'i ddiffinio eto. Dim ond y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid sydd ar waith ar hyn o bryd ac, er y gellid dweud bod y teuluoedd sy'n cyrraedd yn ofni, yn rhesymol felly, y byddent wedi cael eu herlid pe baent wedi aros mewn Affganistan a reolir gan y Taliban (diffiniad y Cenhedloedd Unedig o ffoadur), nid yw Llywodraeth y DU yn rhoi 'statws ffoadur' i'r bobl hyn.

Rydym ar ddeall bod tua 8,000 o bobl wedi cyrraedd y DU sy'n gymwys o dan Bolisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid, ac mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi y bydd 5,000 o bobl y flwyddyn yn cael cymorth o dan y Cynllun i Adsefydlu Dinasyddion Affganistan. Rydym am i Gymru chwarae rhan lawn yn y ddau gynllun hyn, ac mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi addo rhoi cymorth. Fel yn achos y rhan fwyaf o brosiectau lleoli ceiswyr lloches ac adsefydlu ffoaduriaid, bydd Cymru yn ceisio ymgorffori ein hymrwymiad i fod yn Genedl Noddfa drwy o leiaf gadw at ein targed ar sail ein canran o'r boblogaeth o'r DU, sef 4.7%, ac os yw'n bosibl, rhagori ar hynny. Mae hyn yn golygu o leiaf 611 o unigolion o fewn 12 mis cyntaf y cynlluniau. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl rhoi ffigurau manylach o ran faint rydym yn bwriadu eu hadsefydlu fel cenedl.

Mae'n bwysig nodi bod holl awdurdodau lleol Cymru wedi cefnogi teuluoedd o dan y cynllun i adsefydlu pobl o Syria a oedd yn agored i niwed, ac mae ein hardaloedd lleoli ceiswyr lloches wedi bod ymhlith y rheini sydd wedi cefnogi'r nifer uchaf o geiswyr lloches y pen ers blynyddoedd lawer. Mae Cymru wedi ymrwymo i'w gweledigaeth i fod yn Genedl Noddfa, a dim ond diffyg safleoedd digonol fydd yn cyfyngu arnom yn hyn o beth.

Mae'r gwaith adsefydlu eisoes wedi dechrau yng Nghymru, a bydd y gwaith cychwynnol i adleoli teuluoedd sy'n gymwys o dan Bolisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid yn parhau drwy gydol mis Medi. Bydd yr amserlen ar gyfer adsefydlu carfan y Cynllun i Adsefydlu Dinasyddion Affganistan yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU o ran pryd i roi'r cynllun ar waith.

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ddigonolrwydd y trefniadau llety ar gyfer ffoaduriaid sy'n cyrraedd y DU, yn enwedig yng ngoleuni marwolaeth drasig plentyn o Affganistan yn Sheffield ym mis Awst?

Fe wnaeth marwolaeth drasig Mahammed Munib Majeedi, 5 oed, ar 18 Awst ein sobri a'n hatgoffa o'r angen i wneud yn siwr bod trefniadau llety dros dro yn cael eu hystyried yn ofalus a bod y risgiau mor isel â phosibl. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n holl bartneriaid dros yr wythnosau diwethaf i geisio sicrhau safonau llety a fydd yn darparu cymorth dros dro o ansawdd da i deuluoedd. Ar 16 Awst, ysgrifennais at Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Gymunedau, Tai a Llywodraeth Leol i egluro y byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru a'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn defnyddio gwestai yng Nghymru. Yn anffodus, rydym yn ymwybodol bod un gwesty wedi'i gaffael yng Nghymru heb geisio cydsyniad y naill na'r llall. Rydym yn gweithio'n gyflym i asesu digonolrwydd y trefniadau cymorth yn y lleoliad hwn, ac yn gweithio gyda phartneriaid i roi'r cymorth sydd ei angen ar waith.

A yw Llywodraeth Cymru yn siwr ei bod am gael yr arian ychwanegol sydd ei angen gan Lywodraeth y DU, fel y soniwyd yn eich sylwadau i'r BBC?

Rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i addo helpu mewn unrhyw ffordd y gallwn ac i geisio eglurder ar frys ar nifer o faterion pwysig, o gyllid canlyniadol posibl ar gyfer iechyd ac addysg, i drefniadau cynllunio llety wrth gefn, i hyd a lled y cynllun newydd i adsefydlu dinasyddion Affganistan a'r cymorth a ddarperir. Rwyf hefyd wedi codi'r materion hyn yn uniongyrchol gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yng nghyfarfodydd diweddar y Pedair Gwlad, ond nid ydym eto wedi cael ymatebion boddhaol i'n hymholiadau. Ar 6 Medi, ymrwymodd Prif Weinidog y DU yn Nhŷ'r Cyffredin i ysgrifennu at y Gweinyddiaethau Datganoledig yn nodi manylion y cyllid a fydd ar gael yng Nghymru, ac rydym yn aros am y llythyr hwnnw.

Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer uwchgynhadledd pedair gwlad y DU, a gadarnhawyd gan Brif Weinidog y DU i Senedd y DU ar 18 Awst?

Ar 27 Awst, es i gyfarfod y Pedair Gwlad, dan gadeiryddiaeth Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, Michael Gove AS. Codais y pryderon a fynegwyd gan aelodau o gymuned Affganiaid Cymru am yr ymdrechion i achub pobl o Affganistan a'r pryderon am ddiogelwch eu teuluoedd, pwysais am i swyddogion Llywodraeth Cymru gael bod yn rhan o'r gwaith o lunio cynlluniau newydd, a gofynnais am eglurder ar frys ar nifer o faterion.

Cynhaliwyd ail gyfarfod o'r Pedair Gwlad ar 6 Medi gyda Gweinidog Adsefydlu Affganiaid newydd y DU, Victoria Atkins AS, i roi gwybodaeth am ddatblygiadau diweddar. Ymrwymwyd i ymgysylltiad pellach â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, ond nid yw ein swyddogion wedi bod yn rhan go iawn o'r gwaith o lunio'r cynlluniau hyn eto. Nodwn hefyd fod Prif Weinidog y DU wedi ymrwmo i gyfarfod â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn ystod ei ddatganiad i Senedd y DU ar 6 Medi.

Faint o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi cynnig cymorth, ac a allwch roi manylion am y mathau o gymorth a gynigir gan bob awdurdod lleol?

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi addo cefnogi'r cynlluniau hyn, ac mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod yr addewidion yn troi'n gynigion cadarn o ran safleoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae tua hanner ein hawdurdodau lleol eisoes wedi croesawu o leiaf un teulu o Affganistan o dan y cynlluniau hyn, a byddant yn gweithio'n ofalus i sefydlu'r pecyn cymorth ehangach sydd ei angen – fel y maent wedi'i wneud cystal o dan y cynllun i adsefydlu pobl o Syria a oedd yn agored i niwed. Mae'n werth nodi hefyd y bydd ein hardaloedd lleoli ceiswyr lloches hefyd yn cefnogi llawer mwy o Affganiaid yn eu hardaloedd, ac maent wedi gwneud hynny'n gyson drwy gydol y gwrthdaro yn Affganistan.

Mae'n destun balchder mawr bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwmo i gefnogi gwladolion Affganistan. Mae gan Gymru draddodiad hir o gefnogi'r rhai sy'n ceisio noddfa, a byddwn yn parhau â'r traddodiad hwnnw o dan y cynlluniau newydd hyn.

Sut mae cynlluniau i gefnogi ffoaduriaid Affganistan yn cymharu â'r cymorth a gynigiwyd i ffoaduriaid o Syria yn 2015?

Nid ydym eto wedi derbyn unrhyw fanylion pendant gan Lywodraeth y DU ynghylch sut y bydd y Cynllun i Adsefydlu Dinasyddion Affganistan yn gweithio. Rydym wedi pwysu ar Lywodraeth y DU i ddilyn yr un trefniadau ag yn achos y cynllun i adsefydlu pobl o Syria a oedd yn agored i niwed, i bob pwrpas, o ran lefel ariannu a dull gweithredu.

Rydym hefyd wedi gofyn i Lywodraeth y DU ystyried y Cynllun i Adsefydlu Dinasyddion Affganistan yn rhan o Gynllun Adsefydlu'r DU (a elwir hefyd yn Rhaglen Adsefydlu Bydeang) yr oedd awdurdodau lleol Cymru eisoes wedi ymrwmo i'w gefnogi. Bwriad Cynllun Adsefydlu'r DU oedd darparu cynllun mwy generig ac ymatebol i sicrhau bod modd cynnig llwybr diogel a chyfreithiol uniongyrchol i noddfa i ddioddefwyr argyfwng mewn unrhyw ran

o'r byd. Gallai sefydlu cynllun arall eto olygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol lywio prosesau democrataidd o'r newydd cyn y gellir cynnig lleoliadau.

Beth yw barn Llywodraeth Cymru ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth blaenoriaethol i ffoaduriaid Affganistan ac a ydych yn cefnogi safbwynt Llywodraeth y DU i roi blaenoriaeth i fenywod a merched?

Rwyf eisoes wedi pwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y cynllun sydd newydd ei gyhoeddi i adsefydlu dinasyddion Affganistan yn rhoi ystyriaeth arbennig i ba mor agored i niwed yw menywod, plant (gan gynnwys bechgyn), unigolion LHDTG+, lleiafrifoedd crefyddol ac ethnig (gan gynnwys pobl Hazara), a'r rhai sydd ag aelodau o'r teulu sydd eisoes yn byw yn y DU. Yn anochel, o ystyried cwmpas y Cynllun (yn helpu 5,000 o bobl y flwyddyn) a nifer y rhai sydd efallai yn ofni erledigaeth gan y Taliban, mae'n debygol y bydd angen meini prawf cymhwysedd llai pendant i sicrhau y gellir cefnogi'r rhai sydd yn y perygl mwyaf. Rydym am i Lywodraeth y DU ymgysylltu â ni ynghylch hyn, a cheisio hefyd gyngor a chefnogaeth Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid.

Yn gywir,



Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Oliver Dowden CBE MP
Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
4ydd Llawr
100 Parliament Street
Llundain
SW1A 2BQ
enquiries@dcms.gov.uk

13 Medi 2021

Annwyl Oliver

Ysgrifennaf mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar newid posibl ym mherchnogaeth Corfforaeth Deledu Channel 4.

Mae ein sgysiau â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi'r ymgynghoriad wedi amlygu pryderon nad oes llawer o dystiolaeth i gyfiawnhau newid perchnogaeth, gyda rhanddeiliaid yn cytuno'n unfrydol y byddai unrhyw werthiant yn niweidiol i gynulleidfaedd Cymru a'r sector teledu annibynnol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth sylweddol model a chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigryw Channel 4 fel cyhoeddwr a darlledwr. Gyda'r holl gynnwys yn cael ei gomisiynu gan sector teledu annibynnol sy'n ffynnu ar hyn o bryd, mae ei gylch gwaith yn annog gwneud rhaglenni annibynnol. Mae'r rôl y mae'r sianel yn ei chwarae wrth gynnig cynnwys unigryw, arloesol sy'n apelio at gymunedau amrywiol ac i gynulleidfaedd ifanc yn arbennig yn hynod bwysig wrth i ni geisio cynyddu amrywiaeth y cynnwys sy'n diwallu anghenion pob gwylwr. Mae hyn hefyd yn wir mewn meysydd fel newyddion, lle mae'r seilwaith newyddion brodorol cymharol wan yng Nghymru yn cael ei ategu gan wasanaethau newyddion darlledwr y DU.

Mae'n debygol, o dan berchnogaeth breifat newydd, y byddai gan y sefydliad gymhellion newydd, nodau newydd ac yn cael eu gyrru gan elw yn y pen draw. Byddai hyn yn anochel yn arwain at ddiwygio'r model gweithredu presennol, gyda chyfran sylweddol o'r allbwn cynhyrchu yn cael ei greu yn fewnol. Pe bai hyn yn digwydd mae perygl gwirioneddol y byddem yn colli cwmnïau annibynnol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Fel y nodwyd yn yr adroddiad EY annibynnol ar ganlyniadau posibl preifateiddio'r Sianel, a gyhoeddwyd gan Channel 4 ar 10 Medi, gallai hyd at 2,400 o swyddi fod mewn perygl yn y sector creadigol, a allai leihau cyfraniad economaidd Channel 4 yn sylweddol yn y gadwyn gyflenwi (gyda gwerth o tua £2bn yn cael ei drosglwyddo o BBaChau yn yr economi greadigol, i berchennog preifat newydd). Mae'r adroddiad yn awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o'r effaith honno'n cael ei themlo yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 28
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ochr yn ochr â phryderon cwmnïau annibynnol sy'n ofni y byddent yn gweld gostyngiad mewn comisiynu o'r Sianel, mae ein rhanddeiliaid hefyd wedi cwestiynu sut y byddai unrhyw berchennog newydd ar y Sianel yn delio ag Eiddo Deallusol. Er y dywedwyd y byddai hyn yn cael ei ddiogelu o dan berchnogaeth newydd, byddai angen sicrwydd pendant ar y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru bod hyn wir er mwyn sicrhau y gall cynhyrchwyr barhau i fanteisio ar eu heiddo deallusol mewn marchnadoedd tramor, fel y mae'r model presennol yn ei ganiatáu.

Mae perygl hefyd y byddai llawer o'r cynnwys am ddim yn cael ei golli pe bai'r sianel yn cael ei phreifateiddio. Mae cyffredinolrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig iawn yng Nghymru fel ffordd o sicrhau bod pob cynulleidfya, waeth beth fo'i hamgylchiadau, yn gallu cael gafael ar gynnwys. Byddai colli mynediad cyffredinol yn ddinistriol mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, Channel 4 oedd yr unig sianel i ddarlledu Gemau Paralympaidd 2021 ar deledu daearol am ddim.

Er ein bod yn credu bod gwelliannau i'w gwneud o hyd i'r ffordd y mae Channel 4 yn gweithredu yng Nghymru, mae'r Strategaeth *4 all the UK* yn ddiweddar wedi gweld gwelliant amlwg yn y ffordd y mae Channel 4 yn cefnogi ein sector annibynnol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i agenda codi'r gwastad Llywodraeth y DU. Rydym wedi gweld cynnydd mewn comisiynu cynnwys o Gymru, cynnydd mewn buddsoddiad uniongyrchol gan gwmnïau, ac ymrwymiad gwirioneddol i weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion sgiliau yn y sector ac yn bwysicaf oll gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn gweithio gyda Channel 4 i gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cymru Greadigol i adeiladu ar y gwaith partneriaeth cadarnhaol hwn. Er bod rhai o'r rhain yn rhan greiddiol o gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4, nid ydynt yn weithgareddau masnachol nac yn wir broffidiol ac nid ydynt yn debygol o apelio at brynwr preifat. Ystyrir hefyd y byddent yn anodd iawn eu gorfodi pe byddai Channel 4 yn cael ei werthu.

At hynny, ni allwn weld unrhyw dystiolaeth sy'n ategu'r meddylfryd presennol y byddai'n anodd cynnal Channel 4 mewn dwylo cyhoeddus, wrth i fwy o wylwyr newid i wasanaethau ffrydio fel Netflix. Yn wir, mae Alex Mahon wedi datgan yn gyhoeddus yn ddiweddar bod refeniw Channel 4 wedi cynyddu, bod cynnydd yn y balansau arian parod a bod cyllid ar gael i fuddsoddi yn y dyfodol ac mewn cynnwys newydd. Perfformiodd Channel 4 yn dda yn ystod y pandemig ac mae'r adroddiad diweddar ar berfformiad Channel 4 ledled y DU yn dangos ei sefyllfa ariannol gref. Nid yw'n glir pam mae'r camau hyn yn cael eu hystyried yn awr pan fydd gwaith eisoes ar y gweill i sicrhau fframwaith rheoleiddio addas i'r diben ar gyfer cyfryngau gwasanaethau cyhoeddus sy'n esblygu, megis adolygiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaethau cyhoeddus.

Fe'ch anogaf i wrando'n ofalus ar leisiau'r sector annibynnol ledled y DU yn ystod y broses ymgynghori hon. Yn ystod y 12 mis diwethaf, pan fydd rhannau eraill o'r economi wedi gweld dirywiad dwfn o ganlyniad i bandemig byd-eang COVID-19, mae'r sector teledu yn parhau i ffynnu. Ni allwn danbriso'r difrod y byddai preifateiddio Channel 4 yn ei wneud i'r sector. Mae'n naif meddwl y byddai unrhyw sefydliad preifat, ar ôl gwerthu, yn derbyn rhwymedigaethau sy'n anodd eu cyflawni ac nad ydynt yn broffidiol.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Angus Robertson, Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant a Jenny Gilruth, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Ewrop a Datblygu Rhyngwladol, Llywodraeth yr Alban a Deirdre Hargey, y Gweinidog Cymunedau a Gordon Lyons, Gweinidog yr Economi, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Yr wyf hefyd yn copïo'r llythyr hwn at yr Arglwydd Gilbert o Panteg, fel Cadeirydd Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi, i'w ystyried fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol Channel 4.

Edrychaf ymlaen at glywed eich ymateb.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dawn Bowden'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'D' and a long, sweeping underline.

Dawn Bowden AS/MS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

SeneddTai@senedd.cymru

15 Medi 2021

Annwyl Mr Griffiths

Ymgynghoriad – Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Ysgrifennodd fy swyddfa atoch ar 19 Gorffennaf i ofyn i chi ystyried y Gymraeg yn eich gwaith fel pwyllgor. Atodaf gopi o'r llythyr er eich gwybodaeth. Trafoda'r llythyr nifer o faterion allweddol yng nghyd-destun cyflawni strategaeth Cymraeg 2050. Gofynnaf i chi ystyried y materion hynny, os gwelwch yn dda, wrth ddewis y blaenoriaethau y byddwch chi'n eu gosod ar gyfer y pwyllgor wrth gynllunio ei raglen waith. Mae'r anghenion canlynol yn glir:

- Mae angen craffu yn fanwl ar ddeddfwriaeth a pholisïau i sicrhau fod ystyriaeth i'r Gymraeg wedi'i phrif ffrydio iddynt.
- Dylai'r pwyllgor sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei gwarchod a'i hyrwyddo wrth i sefydliadau cyhoeddus gydweithio'n ffurfiol fwyfwy.
- Mae angen cysondeb ym mholisïau awdurdodau cynllunio Cymru yng nghyd-destun y Gymraeg.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru roi arweiniad ar sut i asesu effaith cynllunio ar y Gymraeg a sut y dylai polisïau cynllunio hybu defnydd o'r Gymraeg.

Mater allweddol arall y cyfeiriodd y llythyr ato, sy'n destun trafodaeth gyhoeddus ddwys ar hyn o bryd, yw'r sefyllfa dai yng Nghymru. Amlygwyd argyfwng ail gartrefi mewn nifer o gymunedau ar draws Cymru a chyhoeddwyd adroddiad ar y mater gan Dr Simon Brooks

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

ym mis Mawrth 2021. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi mesurau i ymateb i argymhellion yr adroddiad.¹ Credwn y dylai'r pwyllgor graffu ar ddigonolrwydd y cynlluniau hyn ac ar amserlen eu gweithredu i sicrhau y byddant yn wir yn ymateb yn ddigonol i'r her.

Fel y nodwyd yn y llythyr blaenorol, mae gan y pwyllgor rôl hollbwysig yn yr ymdrech i gyrraedd targedau Cymraeg 2050. Byddwn yn falch o gydweithio gyda chi wrth anelu at y nod hwn.

Yr eiddoch yn gywir,



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Delyth Jewell AS, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon
a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 23 Medi 2021

Pwnc | Subject: Sesiwn i graffu ar waith Gweinidogion: Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip

Annwyl Vaughan a Dawn,

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor dydd Mercher 15 Medi 2021. Fel y nodwyd yn y cyfarfod, rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion a drafodwyd yn ystod eich sesiwn dystiolaeth. Amlinellir y rhain o dan yr is-benawdau perthnasol isod.

Y dosbarthiad cyfrifoldebau gweinidogol

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau pa un ohonoch sy'n gyfrifol am ba agweddau ar eich portffolios gweinidogol perthnasol. Nid yw'r wybodaeth a amlinellir ar wefan Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad o'r fath. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech nodi sut mae meysydd perthnasol eich portffolio yn cyfrannu ar darged Llywodraeth Cymru o sicrhau un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddai'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Pwyllgor a rhanddeiliaid wrth godi materion penodol gyda gweinidog priodol y Llywodraeth.

Dull strategol o ymdrin â diwylliant

Croesawodd y Pwyllgor eich ymrwymiad i greu strategaeth ddiwylliannol newydd. Derbynnir bod nifer o ffactorau a fydd yn dylanwadu ar ffurfio'r strategaethau hyn, gan gynnwys effaith barhaus y pandemig ac adolygiad arfaethedig o wariant Llywodraeth y DU. Dywedasoch yn ystod y cyfarfod fod y blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth ddiwylliannol wedi'u nodi yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys nod canmoladwy o sicrhau bod sectorau o'r fath yn ffynnu yn ystod y tymor sydd i ddod. Er gwaethaf rhestru rhai amcanion, nid yw'r Rhaglen yn amlinellu manylion penodol a fyddai'n sail i strategaeth o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn nodi eich bod yn bwriadu cyhoeddi eich

strategaeth yn gynnar y flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, byddai'r Pwyllgor yn croesawu amlinelliad o'ch syniadau presennol ynghylch y nodau yr ydych yn gobeithio y bydd eich strategaeth yn eu cyflawni. Byddai hyn yn cynnwys y gweithgarwch penodol, y dyraniadau cyllid a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r nodau hyn.

Yn ychwanegol at eich strategaeth gyffredinol ar gyfer diwylliant, byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu manylion strategaethau a fydd gennych yn benodol i'r sector, neu y byddwch yn eu hystyried. A fydddech yn gallu darparu rhestr o'r strategaethau sy'n benodol i'r sector sy'n dod o fewn eich cylchoedd gwaith gweinidogol? Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd os gallwch hefyd ddarparu unrhyw gynlluniau gweithredu ac ariannu sy'n gysylltiedig â'r strategaethau hyn. Yn benodol, a fyddwch chi'n diweddarau'r ddogfen [Digwyddiadau Cymru: Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru?](#)

Yn unol â'ch ymrwymiad yn ystod y cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn awyddus i weithio gyda chi ar ddatblygu eich strategaeth ddiwylliannol arfaethedig yn ogystal â strategaethau eraill sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor. Byddai darparu gwybodaeth o'r fath o gymorth mawr i'r Pwyllgor i wneud hynny.

Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod "[y] celfyddydau, twristiaeth a chwaraeon yn hollbwysig i economi Cymru ac i'n bywyd cenedlaethol, ac mae'r iaith Gymraeg yn drysor cenedlaethol sy'n perthyn i bob unigolyn yng Nghymru." Mae'r Rhaglen hefyd yn ymrwymo i ehangu mynediad a manteisio ar greadigrwydd. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y cynigion hyn yn deilwng, ond mae diffyg manylion yn ymwneud â phob un o'r amcanion penodol a amlinellir yn y Rhaglen. Hoffai'r Pwyllgor ddeall yn well beth yw dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag ymrwymadau penodol a amlinellir o dan y pennawd 'Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu'.

A allwch ddweud beth yw eich nodau, eich cynlluniau cyflawni a'ch dyraniadau cyllid ar gyfer yr ymrwymadau canlynol:

- sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein sectorau diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys yn ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol;
- sefydlu Cronfa Ymchwil a Datblygu Diwydiannau Creadigol;
- sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol;
- ymrwymo i Theatr Clwyd;
- sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed;
- sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.



At hynny, byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn pob un o'r mentrau hyn. A fydddech yn fodlon rhoi diweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor ar eich cynnydd?

Statws Treftadaeth y Byd UNESCO ac Amgueddfa ar gyfer gogledd Cymru

Gwn y cytunwch â'r Pwyllgor bod y llwyddiant diweddar a ddyfarnwyd i ogledd orllewin Cymru yn ennill statws Treftadaeth y Byd UNESCO i'w groesawu a'i ddathlu. Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi eich cynlluniau i adeiladu ar y llwyddiant diweddar hwn. Yn yr un modd, byddem yn ddiolchgar o wybod a oes gennych strategaethau tebyg ar waith i hyrwyddo safleoedd eraill yng Nghymru fel Blaenafon, Pontcysyllte a chestyll Gwynedd?

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'ch cynnig i ddatblygu amgueddfa ar gyfer gogledd Cymru. Er ei bod yn ddyddiau cynnar yn eich Rhaglen Lywodraethu, hoffai'r Pwyllgor ddeall yn well beth fyddai cyfansoddiad amgueddfa ar gyfer gogledd Cymru. Fel y gwyddoch, mae gan yr holl rwydwaith o amgueddfeydd sy'n ffurfio Amgueddfa Genedlaethol Cymru ddiben a chylch gwaith penodol. Er enghraifft, mae Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis yn ail-greu stori diwydiant llechi Cymru; diwydiant a oedd "ar un adeg yn toi'r byd". O ystyried eich cynnig i greu amgueddfa newydd ar gyfer gogledd Cymru, a allwch chi amlinellu ym mha ffordd berthnasol y bydd yn wahanol i'r amgueddfa bresennol sydd yn Llanberis? Ai eich bwriad yw ehangu'r amgueddfa bresennol ar y safle neu greu amgueddfa newydd sbon? Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw wybodaeth y gallwch ei darparu er mwyn ei helpu i ddeall yn well sut y bydd yr amgueddfa arfaethedig yn gwarchod, yn dogfennu ac yn arddangos bywyd yng ngogledd Cymru, ac a fwriedir iddi ddisodli Amgueddfa Llechi Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r wybodaeth hon yn cynnwys targedau, cynlluniau cyflawni a dyraniadau cyllid.

Cymru Hanesyddol

Nododd y Pwyllgor yr amlinelliad a ddarparwyd gennych o bartneriaeth barhaus Cymru Hanesyddol rhwng Cadw, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Er mwyn i'r Pwyllgor ddeall y bartneriaeth hon yn well, a allech ddarparu manylion y bartneriaeth gan gynnwys unrhyw gytundebau ysgrifenedig ar gyfer ei gweithredu (megis memorandwm cyd-ddealltwriaeth), rhaglen waith y bartneriaeth a'i gwaith hyd yma. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau na fydd gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ceisio uno'r sefydliadau hyn yn ystod tymor y Senedd hon.

Strategaeth deledu a ffilm

Yn ôl gwefan Masnach a Buddsoddi Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i gefnogaeth y llywodraeth, y diwydiannau creadigol yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Nodir bod gan y sector drosiant blynyddol o £1.9bn ac mae'n cyflogi dros 58,000 o bobl; sy'n gynnydd o 52 y cant mewn deng mlynedd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn dangos twf trawiadol yn y sector a gall cefnogaeth y llywodraeth sicrhau bod y twf hwn yn parhau. Argymhellodd y Pwyllgor blaenorol yn y Bumed

Senedd y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth sy'n nodi ei gweledigaeth o ran diwydiant sgrin Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion eich strategaeth ar gyfer datblygu'r sector hwn gydag amlinelliad o gynlluniau gweithredu, dyraniadau cyllid a thargedau.

Corff Sgiliau Creadigol i Gymru

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ddydd Iau 16 Medi 2021 ynghylch Corff Sgiliau Creadigol newydd i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datblygiad pwysig hwn o ran sicrhau bod sgiliau a thalent yn cael eu meithrin i ateb y galw a grëir gan sector diwydiannau creadigol sy'n tyfu'n barhaus. Mae gan y Pwyllgor nifer o gwestiynau yn dilyn eich datganiad:

- A yw'r fenter newydd hon yn cael ei chreu fel cangen ychwanegol i Gymru Greadigol yn hytrach nag fel corff ar wahân ynddo'i hun?
- O ran llywodraethu, a allwch chi gadarnhau aelodaeth a strwythur y grŵp llywio a fydd yn llywio ei waith? Ai bwrdd Cymru Greadigol fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith hwn yn gyfrifol, yn y pen draw, am ei weithredu?
- Faint o gyllid sy'n cael ei ddarparu'n flynyddol ar gyfer y fenter?
- Beth yw'r cynllun cyflwyno pum mlynedd ar gyfer ehangu gwaith y corff i gynnwys sectorau creadigol eraill?
- Pa dargedau sydd wedi'u gosod ar gyfer y corff o ran nifer y lleoliadau a'r cyfleoedd hyfforddi a grëir?
- Faint o brentisiaethau pob oed yr ydych chi'n disgwyl i'r fenter eu creu rhwng nawr a 2026?
- Sut yr ydych chi'n bwriadu monitro cynnydd yr holl waith hwn?

Agwedd strategol at newyddiaduraeth Gymreig

Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod rôl cyfryngau brodorol cryf mewn cymdeithas ddemocrataidd o'r pwys mwyaf. Byddai hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth deg a diduedd i'r rhai sy'n dymuno pleidleisio mewn etholiadau i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch pwy ddylai redeg y wlad.

Byddwch yn ymwybodol bod papurau newydd Cymru wedi gweld dirywiad parhaus yn eu cylchrediadau print, fel y mae papurau newydd dyddiol y DU. Er bod cylchrediad papurau newydd print wedi dirywio, mae traffig ar-lein wedi cynyddu. Er gwaethaf hyn, mae sefydliadau newyddion wedi cael anhawster o ran sicrhau gwerth ariannol ar y tuedd cynyddol hwn. Heblaw am ambell enghraifft, maent wedi bod yn amharod i godi tâl am gael mynediad at eu cynnwys, gan ddibynnu yn hytrach ar hysbysebion digidol, gyda swmp yr hysbysebion hynny yn dod i feddiant Google a Facebook. Canlyniad hyn fu cau papurau newydd, colli swyddi a chydgrynhoi'r farchnad gan yr enwau mawr. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r ddarpariaeth newyddiaduraeth ddiuedd o ran newyddion i Gymru. A yw'r Llywodraeth yn darparu arian cyhoeddus i sefydliadau cyfryngau newyddion? Ac os felly, pa broses o ran sicrwydd a safonau

didueddrwydd y mae'n rhaid iddynt eu bodloni cyn cael cyllid o'r fath? Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi nodyn ar y materion hyn.

Chwaraeon a hamdden

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am dull strategol cyffredinol Llywodraeth Cymru o ymdrin â chwaraeon yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys yr amcanion cyffredinol sydd gennych a'r dulliau sy'n cael eu hystyried ar gyfer chwaraeon elît a chwaraeon cymunedol yng Nghymru.

Dywedasoeh hefyd, fel y cyfeirir ato ar ddechrau'r llythyr hwn, eich bod wedi ymrwmo i ehangu mynediad i sawl sector. Mae'r Pwyllgor yn tybio bod hyn yr un mor berthnasol i chwaraeon a gweithgaredd corfforol. A allech nodi eich dull o ymdrin ag ehangu mynediad i chwaraeon yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf?

Llythyrau cylch gwaith ar gyfer cyrff nodedig

Yn olaf, nododd y Pwyllgor eich bod yn bwriadu amlinellu eich bwriadau a gosod targedau ar gyfer y sectorau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon mewn llythyrau cylch gwaith sydd ar y gweill i'r Cyrff perthnasol a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Croesewir y dull hwn. A allech roi amlinelliad o'r mathau o amcanion y byddwch yn eu gosod i bob Corff a Noddir yn y llythyrau cylch gwaith hyn? A allech gynnwys unrhyw dargedau sy'n ymwneud ag ehangu mynediad a chyfranogiad? Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am gopi o'r llythyrau cylch gwaith hyn, ar ôl eu cyhoeddi, er mwyn cynorthwyo i graffu ar eich gwaith.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau hyn erbyn 21 Hydref 2021, er mwyn llywio ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

c.c. Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 23 Medi 2021

Pwnc | Subject: Effaith gwerthu Bad Wolf

Annwyl Vaughan,

Fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher 15 Medi 2021, mae'r Pwyllgor yn dymuno deall yn well beth yw goblygiadau gwerthu'r cwmni cynhyrchu Bad Wolf ar y sector diwydiant creadigol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.

Bad Wolf yw un o'r cwmnïau cynhyrchu teledu mwyaf blaenllaw yng Nghymru ac mae deall effeithiau ei werthu o'r pwys mwyaf i'r Pwyllgor. I'r perwyl hwn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu atebion i'r cwestiynau canlynol:

- Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, dywedasoed fod dros £8.5 miliwn wedi'i dalu yn erbyn y dyfarniad gwreiddiol o £9 miliwn i'r cwmni. A allech gadarnhau sut y rhannwyd yr arian hwn rhwng grantiau neu fenthyciadau?
- A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl adennill unrhyw arian sy'n weddill, boed hynny ar ffurf benthyciadau neu grantiau, pan fydd gwerthiant Bad Wolf wedi'i gwblhau?
- A allwch roi manylion unrhyw gytundebau contractiol cyfredol eraill rhwng Llywodraeth Cymru a Bad Wolf, ac i ba raddau y cyflawnwyd yr ymrwymadau hyn?
- A allwch gadarnhau pa drefniadau sy'n bodoli, os o gwbl, rhwng Llywodraeth Cymru a Bad Wolf o ran perchnogaeth Wolf Studios Cymru? Os oes unrhyw drefniadau ar gael, pa incwm y mae hyn wedi'i gynhyrchu i Lywodraeth Cymru yn y pum mlynedd diwethaf?
- Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, soniasoch am yr effaith gadarnhaol ar y gadwyn gyflenwi y mae Bad Wolf wedi'i chael ar economi Cymru. A allech roi amcangyfrif o nifer y swyddi

uniongyrchol ac anuniongyrchol a grëwyd o ganlyniad i weithrediadau Bad Wolf? A allech hefyd ddarparu amcangyfrif o gyfanswm effaith economaidd Bad Wolf ar economi Cymru?

- A allwch gadarnhau swm (mewn punnoedd ac fel canran) o gyllideb gynhyrchu Bad Wolf "o dan y llinell" a wariwyd yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf?
- Pa ymrwymadau y byddwch yn eu ceisio gan unrhyw berchennog posibl o ran y bydd Bad Wolf yn cynnal ei weithrediad yng Nghymru, gan gynnwys cynnal ei weithrediadau ym Mae Caerdydd?
- A oes gennych unrhyw bryderon sy'n deillio o'r gwerthiant y gallai'r perchennog newydd posibl ddewis symud y gwaith cynhyrchu i leoliadau cost isel eraill neu'r ardaloedd hynny a allai ddarparu gwell cymhellion o ran cyllid?

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor, buaswn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 7 Hydref 2021.

Yn gywir



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

c.c. Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon